



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Awdurdodau Tân ac Achub
– Canllawiau ar fod yn
ymgyngorai statudol yn y
system gynllunio

Awdurdodau

Awdurdodau Tân ac Achub – Canllawiau ar fod yn ymgynghorai statudol yn y system gynllunio

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ('DMPWO') a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 ('DNSPWO') (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel 'y Gorchymynion Gweithdrefn') yn gosod gofyniad statudol i ymgynghori â chyrff allweddol yn ystod cam ymgynghori cyn-ymgeisio'r broses gydsynio ar gyfer ceisiadau cynllunio a cheisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, yn ogystal ag ar ôl i gais gael ei gyflwyno.
- 1.2 Ar 27 Hydref, gosodwyd Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgynghoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 ('y Gorchymyn') gerbron y Senedd. Mae'r Gorchymyn yn diwygio'r Gorchymynion Gweithdrefn i wneud Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru yn 'ymgynghoreion statudol' ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau yn ystod y cam cyn-ymgeisio ac ar ôl i gais gael ei gyflwyno. Bydd hyn yn berthnasol i geisiadau cynllunio y mae Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) yn penderfynu yn eu cylch a Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol lle mai Weinidogion Cymru sy'n gwneud y penderfyniad.
- 1.3 Bydd y gofynion a nodir yn y canllawiau hyn yn dod i rym yn raddol, gan ddechrau ar 24 Ionawr 2022, i alluogi Awdurdodau Tân ac Achub i ymgyswrtu â'r broses a'r gweithdrefnau newydd a osodir arnynt. Mae rhagor o wybodaeth am y dull fesul cam yn adran 8 isod.
- 1.4 Er mwyn hysbysu Awdurdodau Tân ac Achub am y gofynion a osodir arnynt, mae'r llythyr hwn yn rhoi canllawiau mewn perthynas ag effaith y ddeddfwriaeth.

2. Ymgynghori Cyn-ymgeisio (gan ddatblygwyr)

Y Cefndir

- 2.1 Mae'r gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn-ymgeisio, fel y nodir yn Rhan 1A o DMPWO a Rhan 2 o DNSPWO, yn berthnasol i bob cais cynllunio ar gyfer datblygiad 'mawr', boed hynny am ganiatâd llawn neu amlinellol, a phob cais ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol. Nid yw'r gofyniad yn berthnasol i geisiadau:
 - o dan adran 73 neu adran 73A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (h.y. ceisiadau i amrywio amod cynllunio presennol neu ddatblygiad ôl-weithredol);
 - ar gyfer materion a gedwir yn ôl;
 - ar gyfer diwygiadau amherthnasol; neu
 - ar gyfer diwygiadau perthnasol bach.
- 2.2 Cyn cyflwyno cais ar gyfer datblygiad 'mawr' neu Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol, rhaid i'r datblygwr:
 - gyhoeddi drafft o'r datblygiad;
 - ymgynghori ag ymgynghoreion cymunedol ac arbenigol;
 - ysgrifennu adroddiad (a elwir yn 'Adroddiad Ymgynghori Cyn-ymgeisio') ar yr ymgynghoriad cyn-ymgeisio a gynhaliwyd.

- 2.3 Ar gyfer ceisiadau cynllunio, mae'n ofynnol i'r datblygwr ymgynghori â'r ymgynghoreion arbenigol a restrir yn y tabl yn Atodlen 4 i'r DMPWO, pan fydd y datblygiad arfaethedig yn gyson â'r disgrifiadau cyfatebol o ddatblygiadau a restrir yng ngholofn 2 o'r tabl hwnnw. Yn achos Awdurodau Tân ac Achub bydd hyn yn cynnwys y mathau canlynol o ddatblygiad:
- datblygiad gwastraff (fel y'i diffinnir yn erthygl 2 o'r DMPWO);
 - darparu tai annedd naill ai pan fydd deg neu fwy o dai annedd yn cael eu darparu neu pan fydd y datblygiad yn cael ei adeiladu ar safle sy'n 0.5 hectar neu'n fwy ac ni wyddys a fydd deg neu fwy o dai annedd yn cael eu darparu;
 - darparu adeilad neu adeiladau pan fydd y datblygiad yn creu arwynebedd llawr o 1,000 metr sgwâr neu fwy; neu
 - ddatblygiad sy'n cael ei adeiladu ar safle sydd ag arwynebedd o un hectar neu fwy.
- 2.4 Ar gyfer ceisiadau cynllunio, mae'n ofynnol i'r datblygwr ymgynghori â'r ymgynghoreion arbenigol a restrir yn y tabl yn Atodlen 5 i'r DNSPWO, pan fydd y datblygiad arfaethedig yn gyson â'r disgrifiadau cyfatebol o ddatblygiadau a restrir yng ngholofn 2 o'r tabl hwnnw. Yn achos Awdurodau Tân ac Achub bydd hyn yn cynnwys y mathau canlynol o ddatblygiad:
- datblygiad gwastraff;
 - darparu adeilad neu adeiladau pan fydd y datblygiad yn creu arwynebedd llawr o 1,000 metr sgwâr neu fwy; neu
 - datblygiad sy'n cael ei adeiladu ar safle sydd ag arwynebedd o un hectar neu fwy.

Beth i'w ddisgwyl gan y datblygwr

- 2.5 Rhaid i'r datblygwr ddarparu gwybodaeth i'r Awdurdod Tân ac Achub fel yr ymgynghorai (naill ai copi caled, yn electronig neu drwy wefan) sy'n cynnwys y canlynol:
- Yr hysbysiad angenrheidiol o dan y Gorchmynion Gweithdrefn ar gyfer ceisiadau cynllunio a cheisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol
 - Yr holl wybodaeth y byddai'n ofynnol ei chyflwyno fel rhan o gais cynllunio ffurfiol neu gais ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys yr holl wybodaeth ar y ffurflen gais berthnasol
 - Cynlluniau wrth raddfa, gyda saeth y gogledd i nodi'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef
 - Pob cynllun, lluniad a'r holl wybodaeth arall a fyddai'n ofynnol i ddisgrifio'r datblygiad arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddogfennau technegol a fyddai eu hangen er mwyn dilysu unrhyw gais dilynol
 - Datganiad Dylunio a Mynediad
 - Unrhyw wybodaeth a fyddai ei hangen er mwyn cydymffurfio ag unrhyw ofynion dilysu lleol yr awdurdod penderfynu perthnasol
- 2.6 Yn ogystal â'r uchod, gall ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol hefyd gynnwys y canlynol:
- Copi o'r hysbysiad gan Weinidogion Cymru yn derbyn yr hysbysiad am y datblygiad arfaethedig
 - Unrhyw fanylion neu dystiolaeth sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru
 - Lle bo hynny yn berthnasol, y datganiad y cyfeirir ato fel y datganiad amgylcheddol ar gyfer y datblygiad arfaethedig
 - Datganiad ysgrifenedig ar unrhyw gydsyniad eilaidd sy'n gysylltiedig â'r cais arfaethedig, ynghyd â'r ffurflen gais ddrafft a'r dogfennau sy'n gysylltiedig â chydysyniadau o'r fath

- yn achos datblygiad sy'n cynnwys adeiladu, estyn neu newid gorsaf ynni gwynt ar y tir sy'n cynhyrchu trydan, datganiad ysgrifenedig am hyd y llinell arfaethedig a'i foltedd enwol.

Amserlenni ar gyfer ymateb

- 2.7 Ar ôl derbyn yr hysbysiad angenrheidiol, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub ddarparu 'ymateb o sylwedd' i'r datblygwr o fewn 28 diwrnod (42 diwrnod yn achos ceisiadau ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol).
- 2.8 Mewn rhai achosion, yn enwedig wrth ystyried cynlluniau mwy cymhleth a thechnegol, caiff Awdurdodau Tân ac Achub ofyn am ragor o amser i ystyried y datblygiad arfaethedig yn llawn. Mae gan ddatblygwyr ddisgresiwn ynghylch a ddylid rhoi rhagor o amser.

Beth yw ymateb o sylwedd?

- 2.9 Yn unol â'r gofynion yn y Gorchmynion Gweithdrefn, byddai 'ymateb o sylwedd' gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn gwneud y canlynol:
- a) cadarnhau nad oes gan yr Awdurdod Tân ac Achub unrhyw sylwadau i'w gwneud; neu
 - b) cadarnhau nad yw'r Awdurdod Tân ac Achub yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig, a chyfeirio'r ymgeisydd at [unrhyw] gyngor sefydlog cyfredol gan yr Awdurdod Tân ac Achub ar bwnc yr ymgynghoriad; neu
 - c) hysbysu'r datblygwr am unrhyw bryderon a nodwyd mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig a sut y gellir mynd i'r afael â'r pryderon hynny; neu
 - d) hysbysu'r datblygwr bod gan yr Awdurdod Tân ac Achub bryderon ac y byddai'n gwrthwynebu cais am ganiatâd cynllunio a wnaed gan ddefnyddio'r un termau, neu'r un termau at ei gilydd, a nodi'r rhesymau dros y gwrthwynebiadau hynny.
- 2.10 Mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw faterion a godir mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn ystyriaethau cynllunio perthnasol, h.y. rhaid iddynt fod yn faterion cynllunio. Mae materion o'r fath yn berthnasol i reoleiddio'r ffordd mae tir yn cael ei ddatblygu a'i ddefnyddio er budd y cyhoedd, gan anelu at gynaliadwyedd. Yn y pen draw y llysoedd a fydd yn penderfynu ynghylch yr hyn y gellir ei ystyried yn fater perthnasol ar gyfer unrhyw gais penodol.
- 2.11 Yn seiliedig ar drafodaethau blaenorol ag Awdurdodau Tân ac Achub a sylwadau a gyflwynwyd drwy'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus, y materion cynllunio allweddol sydd i'w trafod a ffocws ymatebion Awdurdodau Tân ac Achub fydd:
- Mynediad – sicrhau bod mynediad digonol i safle ar gyfer niferoedd a mathau priodol o beiriannau'r Awdurdod Tân ac Achub;
 - Dŵr – sicrhau cyflenwad digonol o ddŵr at dibenion diffodd tân.
- 2.12 Mae'r materion hyn yn berthnasol i gynllunio a gall ACLlâu neu Weinidogion Cymru eu hystyried wrth benderfynu ynghylch cais cynllunio. Ni ddylai unrhyw faterion nad ydynt yn ymwneud â chynllunio, fel materion a reoleiddir gan y Rheoliadau Adeiladu, fod yn rhan o ymateb gan na all yr ACLI na Gweinidogion Cymru ystyried y materion hyn. Gall hyn gynnwys materion fel llwybrau dianc, strategaethau larwm, neu'r angen am systemau taenellu dŵr neu systemau eraill ar gyfer atal a rheoli tân.

3. Ymgynghoriad gan Awdurdodau Cynllunio Lleol ar ôl i gais gael i gyflwyno

Cefndir

- 3.1 Mae Erthygl 14 o'r DMPWO yn ei gwneud yn ofynnol i ACLlau ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub (ac ymgynghoreion arbenigol perthnasol eraill) cyn penderfynu ynghylch cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer y mathau o ddatblygiadau a restrir ym mharagraff 2.3.
- 3.2 Bydd hefyd yn ofynnol i ACLlau ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub i lywio eu penderfyniad ynghylch ceisiadau ar gyfer datblygiadau sy'n peri risg tân uwch, yn benodol ceisiadau ar gyfer datblygiadau:
- sy'n darparu deg neu fwy o fflatiau (boed hynny drwy gynyddu nifer y fflatiau mewn adeilad sy'n bodoli eisoes neu fel arall); neu
 - sy'n darparu llety preswyl o ddeg neu fwy o ystafelloedd, nad ydynt yn rhan o dai annedd neu fflatiau, nad ydynt yn cael eu defnyddio at ddibenion coginio yn unig ac nad ydynt yn gyfleusterau toiled, ystafelloedd gwasanaethu, coridorau, ystafelloedd golchi dillad, cynteddau neu ystafelloedd cyfleustodau; neu
 - sy'n darparu llety preswyl o ddeg neu fwy o ystafelloedd sy'n rhan o dŷ annedd neu fflat a ddefnyddir fel tŷ amlfeddiannaeth, nad ydynt cael eu defnyddio at ddibenion coginio yn unig ac nad ydynt yn gyfleusterau toiled, ystafelloedd gwasanaethu, coridorau, ystafelloedd golchi dillad, cynteddau neu ystafelloedd cyfleustodau.
- 3.3 Er eglurder, bydd y meini prawf uchod yn cynnwys ceisiadau ar gyfer mathau eraill o lety preswyl fel cartrefi gofal, gwestai, tai amlfeddiannaeth a llety myfyrwyr.
- 3.4 Bydd Awdurdodau Tân ac Achub yn cael copi o'r cais (gall hyn fod ar ffurf ddigidol drwy wefan) ac yn cael eu hysbysu y disgwylir ymateb i'r ymgynghoriad.

Beth yw ymateb o sylwedd?

- 3.5 Mae'r ddyletswydd i ddarparu 'ymateb o sylwedd' yn amrywio rhywfaint yn dibynnu a oedd y cynnig datblygu yn destun ymgynghoriad cyn-ymgeisio gorfodol â'r Awdurdod Tân ac Achub.
- 3.6 Os nad yw ymgynghoriad cyn-ymgeisio statudol wedi cael ei gynnal, neu os cynhaliwyd ymgynghoriad ond bod yr Awdurdod Tân ac Achub wedi methu rhoi ymateb, mae 'ymateb o sylwedd' yn un sy'n gwneud y canlynol:
- a) cadarnhau nad oes gan yr Awdurdod Tân ac Achub unrhyw sylwadau i'w gwneud;
 - b) cadarnhau nad yw'r Awdurdod Tân ac Achub yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig, a chyfeirio'r ACLI at unrhyw gyngor sefydlog cyfredol gan yr Awdurdod Tân ac Achub ar bwnc yr ymgynghoriad;
 - c) hysbysu'r ACLI am unrhyw bryderon a nodwyd mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig a sut y gall yr ymgeisydd fynd i'r afael â'r pryderon hynny; neu
 - d) hysbysu'r ACLI bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig a nodi'r rhesymau dros y gwrthwynebiad.
- 3.7 Os cynhaliwyd ymgynghoriad cyn-ymgeisio a bod yr Awdurdod Tân ac Achub wedi ymateb yn ystod y cam ymgynghori hwnnw (yn unol â'r gofynion amlinellir ym mharagraff 2.9), mae 'ymateb o sylwedd' yn un sy'n gwneud y canlynol:

- a) cadarnhau nad oes gan yr Awdurdod Tân ac Achub unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig a chadarnhau bod unrhyw sylwadau a wnaed yn y cam ymgynghori cyn-ymgeisio yn parhau i fod yn berthnasol;
- b) hysbysu'r ACLI am unrhyw bryderon newydd a nodwyd mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig, a pham na nodwyd y pryderon yn yr ymateb a roddwyd yn y cam cyn-ymgeisio, gan nodi:
 - (i) sut y gall yr ymgeisydd fynd i'r afael â'r pryderon; neu
 - (ii) nodi bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig a nodi'r rhesymau dros y gwrthwynebiad.

3.8 Mae'r cyngor a amlinellir ym mharagraff 2.10 - 2.12 hefyd yn berthnasol.

3.9 Wrth benderfynu ynghylch y cais, rhaid i'r ACLI ystyried unrhyw sylwadau a dderbynnir gan ymgynghorai. Mater o farn fydd y pwysoliad mae'r ACLI yn ei roi i'r ystyriaethau perthnasol a godir mewn ymateb gan Awdurdod Tân ac Achub, ond rhaid i'r ACLI ddangos, wrth wneud ei benderfyniad, eu bod wedi ystyried yr holl faterion perthnasol sy'n ymwneud â chynllunio. Fel arfer rhoddir rhagor o bwysoliad i faterion a ategir gan dystiolaeth nag i sylwadau sy'n seiliedig ar farn.

Amserlenni ar gyfer ymateb

3.10 Ar ôl derbyn ymgynghoriad gan yr ACLI, rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub roi ymateb o sylwedd i'r ymgynghoriad o fewn cyfnod o 21 diwrnod (30 diwrnod os yw'r cais yn cynnwys Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, oni chytunir yn ysgrifenedig ar gyfnod amser arall. Mae'r cyfnod hwn yn dechrau ar y diwrnod y rhoddir hysbysiad neu, os yw'n gynharach, y dyddiad y derbynnir copi o'r cais.

4. Disgresiwn Awdurdodau Cynllunio Lleol i ymgynghori ynghylch ceisiadau am gymeradwyaeth, cydsyniad neu gytundeb sy'n ymwneud â chais cynllunio

Y Cefndir

- 4.1 Pan fydd ACLI yn derbyn cais am gymeradwyaeth, cydsyniad neu gytundeb yn ymwneud â chais cynllunio yr ymgynghorwyd ag Awdurdodau Tân ac Achub yn ei gylich yn y lle cyntaf, bydd ganddynt y disgresiwn i benderfynu a ddylid ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub.
- 4.2 Pan fydd ACLI yn dewis ymgynghori, bydd yn ofynnol iddynt roi'r wybodaeth ganlynol i'r Awdurdod Tân ac Achub, er mwyn iddo fod yn ymgynghoriad dilys ac i sbarduno'r amserlen 21 diwrnod ar gyfer ymateb:
 - copi o'r ffurflen gais;
 - y cyfeirnod a ddyrannwyd i'r cais gwreiddiol gan yr ACLI;
 - unrhyw luniadau sy'n gysylltiedig â'r cais perthnasol;
 - unrhyw adroddiad a roddwyd i'r ACLI mewn perthynas â'r cais perthnasol.

Amserlenni ar gyfer ymateb

4.3 Ar ôl derbyn ymgynghoriad gan yr ACLI, rhaid i Awdurdod Tân ac Achub roi ymateb o sylwedd i'r ymgynghoriad o fewn cyfnod o 21 diwrnod oni chytunir gyda'r ACLI yn ysgrifenedig ar gyfnod amser arall.

- 4.4 Bydd y cyfnod ymgynghori statudol yn dechrau naill ai ar y diwrnod y gofynnir am farn yr Awdurdod Tân ac Achub neu, os oes mwy nag un ddogfen, y diwrnod y derbynnir yr olaf o'r dogfennau hynny gan yr Awdurdod os cânt eu hanfon ar wahanol adegau.
- 4.5 Mae gan ACLIau hyblygrwydd o ran sut maent yn cyhoeddi'r ymgynghoriad (e.e. copi caled neu'n electronig). Pan fydd ACLI yn ysgrifennu neu'n anfon e-byst at Awdurdodau Tân ac Achub i'w hysbysu bod y manylion hyn ar gael ar wefan yr ACLI (yn hytrach nag e-bostio'r wybodaeth mewn atodiadau neu ddarparu copïau caled), dim ond pan fydd yr olaf o'r dogfennau hyn ar gael ar y wefan honno y cymerir bod y cyfnod o 21 diwrnod wedi dechrau.

Beth yw ymateb o sylwedd?

- 4.6 Pan fydd yr ACLI yn ymgynghori ag Awdurdod Tân ac Achub ynghylch y mathau hyn o geisiadau, mae ymateb o sylwedd yn un sy'n gwneud y canlynol:
- cadarnhau nad oes gan yr Awdurdod Tân ac Achub unrhyw sylwadau i'w gwneud;
 - cadarnhau nad oes gan yr Awdurdod Tân ac Achub unrhyw wrthwynebiad i'r materion yr ymgynghorir yn eu cylch a chyfeirio'r ACLI at [unrhyw] gyngor sefydlog;
 - hysbysu am unrhyw bryderon a nodwyd mewn perthynas â'r materion yr ymgynghorir yn eu cylch, a sut y gellir mynd i'r afael â'r pryderon hynny; neu
 - hysbysu bod yr Awdurdod Tân yn gwrthwynebu'r materion yr ymgynghorir yn eu cylch a nodi'r rhesymau dros y gwrthwynebiad.
- 4.7 Mae'r cyngor amlinellir ym mharagraffau 2.10 – 2.12 hefyd yn berthnasol.

5. Ymgynghoriad gan Weinidogion Cymru ar ôl i gais gael ei gyflwyno (Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol)

Y Cefndir

- 5.1 Mae Erthygl 22 o'r DNSWPO yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub (ac ymgynghoreion arbenigol perthnasol eraill) cyn penderfynu ynghylch cais ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae'r mathau o ddatblygiadau yr ymgynghorir ag Awdurdodau Tân ac Achub yn eu cylch yn cael eu nodi ym mharagraff 2.4.
- 5.2 Bydd Awdurdodau Tân ac Achub yn cael copi o'r cais (gall hyn fod ar ffurf ddigidol drwy wefan) ynghyd â hysbysiad y disgwylir ymateb i'r ymgynghoriad.

Amserlenni ar gyfer ymateb

- 5.3 Ar ôl derbyn ymgynghoriad gan Weinidogion Cymru, rhaid i Awdurdod Tân ac Achub roi ymateb o sylwedd i'r ymgynghoriad o fewn cyfnod o 21 diwrnod (30 diwrnod os yw'r cais yn cynnwys Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) oni chytunir gyda Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig ar gyfnod amser arall. Mae'r cyfnod hwn yn dechrau ar y diwrnod y rhoddir hysbysiad.

Beth yw ymateb o sylwedd?

- 5.4 Mae'r ddyletswydd i ddarparu 'ymateb o sylwedd' ar gyfer ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn cyd-fynd â'r ffordd o ymateb i ymgynghoriad gan ACLI ynghylch ceisiadau cynllunio, lle mae'r ymateb sydd i'w ddarparu yn amrywio rhywfaint yn dibynnu a ymatebodd yr Awdurdod Tân ac Achub i'r cais am ymgynghoriad fel rhan o ymgynghoriad gorfodol cyn-ymgeisio.
- 5.5 Os cynhaliwyd ymgynghoriad ond methodd yr Awdurdod Tân ac Achub ag ymateb, mae 'ymateb o sylwedd' yn un sy'n gwneud yn canlynol:
- cadarnhau nad oes gan yr Awdurdod Tân ac Achub unrhyw sylwadau i'w gwneud;
 - cadarnhau nad yw'r Awdurdod Tân ac Achub yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig a chyfeirio Gweinidogion Cymru at unrhyw gyngor sefydlog cyfredol sydd gan yr Awdurdod Tân ac Achub ar bwnc yr ymgynghoriad;
 - hysbysu Gweinidogion Cymru am unrhyw bryderon a nodwyd mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig a sut y gall yr ymgeisydd fynd i'r afael â'r pryderon hynny; neu
 - hysbysu Gweinidog Cymru bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig a nodi'r rhesymau dros y gwrthwynebiad.
- 5.6 Os cynhaliwyd ymgynghoriad cyn-ymgeisio a bod yr Awdurdod Tân ac Achub wedi ymateb yn ystod y cam ymgynghori hwnnw (yn unol â'r gofynion a amlinellir ym mharagraff 2.9), mae 'ymateb o sylwedd' yn un sy'n gwneud y canlynol:
- cadarnhau nad oes gan yr Awdurdod unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig a chadarnhau bod unrhyw sylwadau a wnaed yn y cam ymgynghori cyn-ymgeisio yn parhau i fod yn berthnasol;
 - hysbysu'r Gweinidogion Cymru am unrhyw bryderon newydd a nodwyd mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig, a pham na nodwyd y pryderon yn yr ymateb a roddwyd yn y cam cyn-ymgeisio, gan nodi:
 - sut y gall yr ymgeisydd fynd i'r afael â'r pryderon; neu
 - nodi bod yr Awdurdod yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig a nodi'r rhesymau dros y gwrthwynebiad.
- 5.7 Y Mae'r cyngor a amlinellir ym mharagraff 2.10 – 2.12 hefyd yn berthnasol.
- 5.8 Wrth benderfynu ynghylch y cais, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw sylwadau a dderbynnir gan ymgynghorai. Mater o farn fydd y pwysoliad mae Weinidogion Cymru yn ei roi i'r ystyriaethau perthnasol a godir mewn ymateb gan Awdurdod Tân ac Achub, ond rhaid i Weinidogion Cymru ddangos, wrth wneud eu penderfyniad, eu bod wedi ystyried yr holl faterion perthnasol sy'n ymwneud â chynllunio. Fel arfer rhoddir rhagor o bwysoliad i faterion a ategir gan dystiolaeth na sylwadau sy'n seiliedig ar far.

6. Adrodd

- 6.1 Fel ymgynghorai statudol, mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub roi'r data canlynol i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn, erbyn 1 Gorffennaf fan bellaf:
- nifer yr achosion yr ymgynghorwyd â'r Awdurdod Tân ac Achub eu cylch;
 - nifer yr achosion y rhoddodd yr Awdurdod ymateb o sylwedd yn eu cylch (h.y. naill ai ymateb i'r ymgeisydd mewn perthynas ag ymgynghoriad cyn-ymgeisio statudol, neu ymateb i'r ACLI neu Weinidogion Cymru mewn perthynas â

cheisiadau cynllunio a cheisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol: a,

- Nifer yr achlysuron y rhoddodd pob Awdurdod Tân ac Achub ymateb o sylwedd y tu allan i'r cyfnod a bennir a chrynodeb o'r rhesymau pam.

6.2 Mae gan Awdurdodau Tân ac Achub ryddid ynghylch sut i gyflwyno'r wybodaeth uchod. Fodd bynnag, er mwyn darparu adroddiad sy'n bodloni'r gofynion statudol ac yn rhoi cyd-destun i'r ystadegau a ddarperir, efallai y bydd Awdurdodau Tân ac Achub yn ei chael yn fuddiol dilyn y strwythur canlynol:

- 1) **Cyflwyniad:** adran fer yn amlinellu ei rôl fel ymgynghorai statudol.
- 2) **Materion allweddol yn y flwyddyn adrodd:** mae'r adran hon yn gyfle i roi sylwadau ar unrhyw heriau penodol yr ydych wedi'u hwynebu, neu i dynnu sylw at waith cadarnhaol sydd wedi cael ei wneud.
- 3) **Perfformiad yn erbyn y dangosyddion:** rhoi ffigurau ystadegol ar gyfer y set ddata. Dylid cyflwyno'r data o ymgynghoriadau cyn-ymgeisio a'r data o ymgynghoriadau ag ACLlau neu Weinidogion Cymru ar wahân. Dylid hefyd gynnwys crynodeb o'r rhesymau dros ymatebion hwyr.
- 4) **Myfyrio:** mae'r adran hon yn rhoi cyfle i nodi meysydd sy'n perfformio'n dda a meysydd lle y gellid gwella'r perfformiad.

6.3 Dylai hyd yr adroddiad fod yn gymesur â nifer yr ymatebion.

6.4 Defnyddir y data i nodi perfformiad da a gwael fel y gall Gweinidogion Cymru adolygu cyfranogiad yr ymgynghorai statudol yn y broses o asesu ceisiadau cynllunio. Cofnodir bod y rhai sy'n methu darparu data'n perfformio'n wael, y byddant yn cael eu henwi yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru Gyfan Llywodraeth.

7. Manylion Cyswllt

7.1 Cynghorir Awdurdodau Tân ac Achub i gyhoeddi manylion cyswllt, megis cyfeiriad e-bost neilltuedig, y gall datblygwyr ac ACLlau ei ddefnyddio i gyflwyno ceisiadau i ymgynghori. Dylid cyhoeddi'r wybodaeth hon ar wefan pob Awdurdod Tân ac Achub i helpu i sicrhau hygyrchedd.

8. Trefniadau pontio

8.1 Er bod y Gorchymyn wedi cael ei osod, ni fydd Awdurdodau Tân ac Achub yn dechrau derbyn ceisiadau i ymgynghori yn syth. Mae trefniadau trosiannol wedi cael eu rhoi ar waith i gyflwyno'r gofynion fesul cam, er mwyn galluogi Awdurdodau Tân ac Achub i ymaddasu ac ymgyfarwyddo â'r gofynion, ac i sicrhau eu bod yn barod i dderbyn ac ymateb i geisiadau i ymgynghori pan ddaw'r gofynion statudol i ddatblygwyr ac awdurdodau sy'n gwneud penderfyniadau ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub i rym.

8.2 Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb o'r cyfnod cyflwyno fesul cam.







Tabl 1: Trefniadau trosiannol ar gyfer ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub

Gofyniad i ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ynghylch ceisiadau a gyflwynir (gan gynnwys hysbysiadau wedi'u rhoi i Weinidogion Cymru yn achos Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol):

**27 Hydref 2021 –
23 Ionawr 2022**

**24 Ionawr 2022 – 24
Ebrill 2022**

25 Ebrill (ymlaen)

Ceisiadau Cynllunio y penderfynir yn eu cylch gan ACLlau			
Datblygwyr i gynnal ymgynghoriad cyn-ymgeisio ag Awdurdodau Tân ac Achub o dan Erthygl 2D o'r DMPWO	X	Datblygwyr i ddechrau ymgynghoriad cyn-ymgeisio ag Awdurdodau Tân ac Achub*	 Rhaid i'r Adroddiad Ymgynghori Cyn-ymgeisio gynnwys ymgynghori ag Awdurdod Tân ac Achub er mwyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ddilysu'r cais
Ymgynghoriad gan ACLlau yn ystod y cam ymgeisio o dan Erthygl 14 o'r DMPWO	X	X	
Gofyniad statudol i Awdurdodau Tân ac Achub ddarparu ymateb o sylwedd i unrhyw ymgynghoriad a dderbynnir o dan erthyglau 2E a 15E o'r DMPWO (ac erthyglau 10 a 23 o'r DNSWPO)	X		
Ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol			
Ymgynghoriad gan ddatblygwyr (Erthygl 9 o'r DNSWPO) a Gweinidogion Cymru (Erthygl 22 o'r DNSWPO) ar gyfer ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol	X	 (ac eithrio ceisiadau a gyflwynir pan fydd y datblygwr wedi cyflwyno hysbysiad i Weinidogion Cymru cyn 24 Ionawr 2022)	 (ac eithrio ceisiadau a gyflwynir pan fydd y datblygwr wedi cyflwyno hysbysiad i Weinidogion Cymru cyn 24 Ionawr 2022)

Er nad oes gofyniad statudol i geisiadau a gyflwynir cyn 25 Ebrill 2022 gynnwys cadarnhad yr ymgynghorwyd ag Awdurdodau Tân ac Achub yn yr Adroddiad Ymgynghori Cyn-ymgeisio, dylai datblygwyr ddechrau cynnal ymgynghoriadau yn ystod y cyfnod hwn fel rhan o'r broses ymgynghori cyn-ymgeisio statudol, i baratoi ar gyfer cyflwyno cais cynllunio ar neu ar ôl 25 Ebrill.

Rhwng gosod y ddeddfwriaeth a 23 Ionawr 2022:

- 8.3 Yn ystod y cyfnod hwn, ni fydd dyletswydd ar ddatblygwyr nac ACLlau i ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub. Er y caiff Awdurdodau Tân ac Achub ddewis ymateb iddynt os ydynt yn derbyn unrhyw geisiadau i ymgynghori, nid yw'r gofyniad statudol i ddarparu ymateb o sylwedd yn berthnasol.
- 8.4 Dylai'r Awdurdodau Tân ac Achub ddefnyddio'r amser hwn i baratoi ar gyfer derbyn y rownd gyntaf o ymgynghoriadau, a fydd yn dechrau cyrraedd ar 24 Ionawr 2022.

O 24 Ionawr 2022:

- 8.5 Bydd Awdurdodau Tân ac Achub yn dechrau derbyn ceisiadau am ymatebion i ymgynghoriadau gan ddatblygwyr sy'n cynnal ymgynghoriadau cyn-ymgeisio (ar gyfer ceisiadau cynllunio yn y dyfodol a Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol). Mae'n bosibl hefyd y derbynnir ceisiadau am ymateb i ymgynghoriad gan Weinidogion Cymru ar gyfer ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.
- 8.6 Bydd yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub roi ymateb o sylwedd i unrhyw ymgynghoriad cyn-ymgeisio a dderbynnir (gweler paragraff 2.9).
- 8.7 Er nad oes gofyniad i ACLlau ddechrau ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ar geisiadau cynllunio tan 25 Ebrill, os bydd Awdurdod Tân ac Achub yn derbyn cais ffurfiol i ymgynghori, rhaid darparu ymateb statudol (gweler paragraff 3.5). Dylid hefyd gofnodi ac ymgorffori unrhyw gais a dderbynnir yn yr adroddiad blynyddol (gweler adran 6).

O 25 Ebrill 2022:

- 8.8 Dylai Awdurdodau Tân ac Achub ddisgwyl i nifer y ceisiadau i ymgynghori gynyddu ar ôl i'r gofyniad statudol i ddatblygwyr ac ACLlau gynnal ymgynghoriadau ddod i rym.
- 8.9 Bydd yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub roi ymateb o sylwedd i unrhyw gais ymgynghori cyn-ymgeisio a dderbynnir.

9. Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI)

- 9.1 Nid yw Awdurdodau Tân ac Achub yn dod yn ymgynghorai arbenigol yn y broses ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio a cheisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd cenedlaethol ond yn un rhan o'r trafodaethau hanfodol pellach sydd eu hangen o fewn y system gynllunio i sicrhau bod diogelwch tân yn cael ei ystyried pan fydd prosiectau adeiladu newydd yn cael eu cynnig.
- 9.2 Mae'n bwysig bod diogelwch tân a barn arbenigwyr diogelwch tân yn cael eu hystyried cyn gynted â phosibl wrth gynllunio a dylunio datblygiad newydd. Rhaid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun sydd wedi cael ei fabwysiadu. Felly, mae cymryd rhan yn y cam llunio cynlluniau yn rhoi cyfle i ddylanwadu ar greu lleoedd a datblygu strategol ehangach. Felly, anogir Awdurdodau Tân ac Achub i drafod materion sy'n ymwneud â diogelwch tân yn eu hardal ag ACLlau, wrth baratoi ac adolygu'r CDLIau perthnasol. Mae cymryd rhan yn y broses ar gyfer CDLIau yn helpu i ystyried diogelwch ar gyfer yr ardal ehangach, gan gynnwys bygythiad tanau gwyllt, a

hwyluso mynediad gwell ar gyfer ymladd tân a newidiadau posibl i adnoddau rheng flaen Awdurdodau Tân ac Achub.